Cynllun Asesu a Rheoli Ardal Gadwraeth Traphont Ddŵr Pontcysyllte



Mabwysiadwyd yng Ngorffennaf 2009

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Manylion Cysylltu

Am ragor o wybodaeth neu gyngor, dyma'r manylion cysylltu:
Prif Swyddog Cynllunio
Adran Cynllunio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Stryt y Lampint
Wrecsam
LL11 1AR
Ffôn: 01978 292019
e-bost: planning@wrexham.gov.uk
www.wrecsam.gov.uk/cynllunio

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ac mewn fformatau eraill ar gais. Mae ar gael hefyd ar wefan y Cyngor.

v/conservation/pontcysyllte/pontcysyllte_welsh

Cynnwys

Rhan I - Asesiad o Gymeriad 1

1.0 Cyflwyniad 3

2.0 Dechrau a Datblygu 5

3.0 Crynodeb o Gymeriad Arbennig 9

4.0 Ardaloedd o Gymeriad 13

5.0 Crynodeb o Nodweddion Negyddol 22

Rhan II - Cynllun Rheoli 25

6.0 Cynllun Gwella 26

7.0 Canllawiau Dylunio 28

8.0 Rheoliadau Ardal Gadwraeth 30

9.0 Ffynonellau Cyllid 32

Atodiad 1 33

Adeiladau Rhestredig

Atodiad 2 34

Canllawiau Polisi Cadwraeth

Atodiad 3 35

Rhestr Termau Pensaernïol

Ffigurau

Ffigwr 1 Ardal Gadwraeth Traphont Ddŵr Pontcysyllte 2

Ffigwr 2 Pontcysyllte, Basn Trefor a Glanfeydd Trefor 1875 6

Ffigwr 3 Basn Froncysyllte 1877 7

Ffigwr 4 Ardaloedd o Gymeriad yn yr Ardal Gadwraeth 12

Ffigwr 5 Traphont Ddŵr Pontcysyllte 14

Ffigwr 6 Glanfa Trefor 16

Ffigwr 7 Y Glanfeydd Gogleddol 19

Ffigwr 8 Basn Froncysyllte 21



Llun o'r awyr Ardal Gadwraeth Traphont Ddŵr Pontcysyllte



Rhan I
Asesiad o Gymeriad



OS © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded 100023429. 2009

Ffigwr 1 - Ardal Gadwraeth Traphont Ddŵr Pontcysyllte

1 Cyflwyniad

Dynodiad Ardal Gadwraeth

1.1 Mae Adran 69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gofyn bod Awdurdodau Lleol yn dynodi "ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae cadw neu wella eu cymeriad neu eu golwg yn ddymunol" i'w dynodi'n ardaloedd cadwraeth.

Y Diben

1.2 Diben y Cynllun Asesu a Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yw:

- Cynnig diffiniad eglur o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr ardal
- Darganfod dulliau a fydd yn fodd i gadw a gwella eu nodweddion unigryw trwy'r Cynllun Gwella
- Cryfhau'r cyfiawnhad tros ddynodi
- Creu cyd-destun eglur ar gyfer datblygu yn y dyfodol yn unol â pholisïau ardal gadwraeth yn y cynllun datblygu
- Rhoi cyfrwng ar gyfer ymgysylltu a hybu ymwybyddiaeth

Ardal Gadwraeth Traphont Ddŵr Pontcysyllte

1.3 Nod y Cynllun Asesu a Rheoli yw hyrwyddo a chefnogi datblygiadau sy'n gydnaws â, neu'n gwella, cymeriad Ardal Gadwraeth Traphont Ddŵr Pontcysyllte. Nid yw'n ymgais i rwystro newid. Y nod yw cadw'r ddysgl yn wastad er mwyn rhoi'r un pwys ar fuddiannau'r ardal gadwraeth ag ar yr angen am newid a datblygu. Dynodwyd Ardal Gadwraeth Basn Trefor y 6ed Gorffennaf 1998 a'i hehangu a'i hailenwi yn Ardal Gadwraeth Traphont Ddŵr Pontcysyllte y 14eg Gorffennaf 2009. Yr hyn sydd o dan sylw yn y ddogfen hon yw'r rhesymau tros ddynodi, diffinio'r rhinweddau sy'n creu ei diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig, cymeriad a golwg. Ni ddylid cymryd bod peidio â chynnwys unrhyw adeilad, nodwedd neu fan yn golygu nad oes diddordeb iddo.

Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte

1.4 Fe ddynodwyd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO ym mis Mehefin 2009. Mae'r safle'n cael ei gydnabod yn gampwaith ym maes peirianneg camlesi sydd â gwerth nodedig byd-eang iddo; mae hefyd yn dangos, mewn modd ardderchog, sut y gwnaeth trafnidiaeth wella yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn ymestyn am 11 milltir o Bont y Galedryd yn Swydd Amwythig hyd at Raeadr y Bedol yn Sir Ddinbych.

Y Cyd-destun Cynllunio

1.5 Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Chynllun Datblygu Unedol Wrecsam 2005 a fabwysiadwyd, a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol, yn enwedig Cylchlythyr 61/96 Y Swyddfa Gymreig, Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth.

Arfarniad o Gymeriad Ardal Gadwraeth Basn Trefor

1.6 Bydd Cynllun Asesu a Rheoli Ardal Gadwraeth Traphont Ddŵr Pontcysyllte yn disodli'r ddogfen hon. Ers ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2001 bu gwella sylweddol yn yr Ardal Gadwraeth, yn arbennig trwy raglen gadwraeth a roddwyd ar waith yn ystod 2003-04, pryd yr adnewyddwyd Traphont Ddŵr Pontcysyllte.

Y Lleoliad

1.7 Mae Ardal Gadwraeth Traphont Ddŵr Pontcysyllte yn ymestyn o derfyn camlas Llangollen ym Masn Trefor yn anheddiad Pontcysyllte, tua'r de cyn belled ag anheddiad

Froncysyllte. Mae i'r de orllewin o Drefor, 6 milltir i'r de o Wrecsam a 3 milltir i'r dwyrain o Langollen. Mae ffordd hanesyddol yr A5 rhwng Llundain a Chaergybi, a adeiladwyd gan Thomas Telford, yn mynd trwy bentref Froncysyllte i'r de. Ar yr ochr ogleddol, mae ffordd yr A539 i Riwabon, ac anheddiad Trefor. Yr adeilad amlycaf oll yw Traphont Ddŵr Pontcysyllte.

1.8 Mae'r Ardal Gadwraeth ar ffurf llinell sy'n rhedeg yn fras o'r Gogledd i'r De. Mae'n cynnwys prif adeileddau sy'n bwysig o ran datblygiad camlas y Basn ac mae'n amlwg yn wahanol i'r tai o'r 20fed Ganrif yn yr ardaloedd yn y pen Gogleddol a'r pen Deheuol. Mae'n cynnwys lleoliad hanfodol y Draphont Ddŵr, yr arglawdd sy'n arwain ati a'r adeiladau sy'n gysylltiedig â hwy.

2 Dechrau a Datblygu

2.1 Adeiladwyd Traphont Ddŵr Pontcysyllte i gludo camlas Ellesmere (camlas Llangollen erbyn hyn). Cloddiwyd y gamlas mewn ymateb i 'Wallgofrwydd Camlesi' blynyddoedd cynnar y 1790au. Fe'i hyrwyddwyd oherwydd bod rhaid ei chael ar gyfer cynnydd y gweithfeydd haearn, y pyllau glo a'r diwydiannau cysylltiedig yn ardal Rhiwabon a Wrecsam. Ar y cyfan, yn ystod y cyfnod rhwng 1795 a dechrau'r 1880au y digwyddodd y rhan fwyaf o'r datblygu ym Masn Trefor.

2.2 Roedd y cynllun gwreiddiol, sef Camlas Ellesmere, a hyrwyddwyd yn Neddf Seneddol 1793, yn un o'r mwyaf uchelgeisiol a luniwyd erioed. Y bwriad oedd iddi fod yn gysylltiad rhwng afon Merswy (yn y fan a fyddai'n Ellesmere Port) ac afon Dyfrdwy yng Nghaer, Wrecsam a Meysydd Glo Gogledd Cymru, tref Ellesmere yn Sir Amwythig, ac yn y pen draw gydag afon Hafren yn nhref Amwythig. Daeth hyn yn sgil cryn drafod ynghylch y llwybr mwyaf addas i'w ddilyn. Roedd un garfan o blaid llinell rhwng afonydd Merswy a Dyfrdwy, tra'r oedd y llall o blaid llinell rhwng afonydd Dyfrdwy a Hafren. Roedd Traphont Ddŵr Pontcysyllte yn rhan hanfodol o'r ddau gynllun, yn groesfan strategol yn nyffryn afon Dyfrdwy.

2.3 Yn sgil Deddf 1793, penodwyd Thomas Telford yn Asiant Cyffredinol i Gwmni Camlas Ellesmere, gyda William Jessop yn Beiriannydd, gyda chymorth John Duncombe, Thomas Densom a William Turner. Roedd Jessop yn un o beirianwyr camlesi a dociau mwyaf pwysig y cyfnod. Yr adeg honno, roedd Telford yn syrfëwr sirol heb enwogrwydd, ond a fyddai'n un o beirianwyr mwyaf cynhyrchiol blynyddoedd cynnar yr 19eg Ganrif.

2.4 Roedd Camlas Ellesmere, ar y cyfan, ar linell rhwng Trefor a Welsh Frankton lle'r oedd yn ymrannu'n geinciau gwahanol. Dechreuwyd adran Trefor ym 1793-4 gyda Jessop a Telford yn llunio'r traphontydd dŵr ym Mhontcysyllte ym 1795 (a orffennwyd ym 1805) ac yn Y Waun (a agorwyd ym 1801). Roedd gwaith adeiladu'r draphont ddŵr wedi hen gychwyn pan roddwyd y gorau ym 1800 i'r brif linell a oedd wedi ei bwriadu rhwng Trefor ac afon Dyfrdwy. Yn lle'r bwriad gwreiddiol o fod yn draphont ddŵr ar ffordd drwodd roedd erbyn hyn yn gysylltiad gyda'r derfynfa a gyda changen, a oedd hefyd yn fodd i ddod â'r ddŵr, o Langollen.

2.5 Adeiladwyd hefyd rhan o'r gamlas, cangen y Ffrwd, a daeth yr ardal ddiwydiannol o amgylch Trefor i bob pwrpas yn derfynfa i lwybr deheuol o Gaer trwy'r Heledd Wen a'r Eglwys Wen. I'w chysylltu gyda diwydiannau lleol roedd tramffyrdd a chamlas fer (a agorwyd ym 1830) i waith haearn Plas Kynaston. Yn ystod y blynyddoedd rhwng 1801 a 1808 adeiladwyd Pont 31. Paratowyd cynlluniau ym 1803 ar gyfer y gamlas i ddod â'r dŵr o Lantysilio i Orllewin Pontcysyllte. Ym 1808 cloddiwyd camlas ddyfrio addas i gychod o Drefor i afon Dyfrdwy yn Llantysilio. Roedd hon yn dod â dŵr i'r camlesi o afon Dyfrdwy yn Rhaedr y Bedol, cored a adeiladwyd i'r diben hwnnw.

2.6 Cyn hyn, nid oedd y safle wedi ei ddatblygu. Nid oes tai i'w gweld ar ochr ogleddol afon Dyfrdwy yn Nhrefor ar fapiau Cwmni'r Gamlas o 1793 a 1795, er bod y Ffordd Newydd i'w gweld yno'r adeg honno. Felly, yn sgil y gamlas y dechreuodd Basn Trefor.

2.7 Mae cynllun o 1803 yn dangos Pont y Ffordd Newydd ac adeilad y tybir bod Cwmni Camlas Ellesmere wedi ei godi yn dŷ ar gyfer peiriannydd a oedd yn goruchwylio gwaith adeiladu'r gamlas a'r draphont ddŵr ar ran Telford. Ei enw yn ddiweddarach oedd Scotch Hall a'i enw erbyn



Ffigwr 2 - Pontcysyllte, Basn Trefor a Glanfeydd Trefor 1875

OS © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded 100023429. 2009

hyn yw Tafarn Telford, ac "wedi ei adeiladu ym mhen gogleddol y draphont ddŵr yng nghornel cae, o gerrig, calch a thywod, yn ogystal ag o bren". Yn raddol, estynnwyd y dramffordd a gysylltai Basn Trefor a diwydiannau Phlas Kynaston tua'r gogledd i Nant Rhiwabon. Roedd y gamlas yn cynnig cludiant i'r chwareli llechi a'r gweithfeydd carreg galch. O waith haearn Plas Kynaston y daeth y deunydd ar gyfer adeiladu'r draphont ddŵr. Yn y cyfamser yn Froncysyllte, roedd y basn yn derfynfa ar gyfer y gamlas tra'r oedd y draphont ddŵr yn cael ei chwblhau, gyda masnach o gei'r gamlas gerllaw. Yr adeg honno, nid oes adeiladau o gwbl i'w gweld yn yr ardal hon.

2.8 Erbyn amser Arolwg Degwm 1838, roedd Basn Trefor rhywfaint yn debycach i'r hyn yw heddiw. Mae'r arolwg yn dangos y ddau ddoc sych a adeiladwyd rhywbryd rhwng 1803 a 1838, ar ochr ddwyreiniol y gamlas. Daeth y rhain yn derfynfeydd i'r brif gamlas. Mae Bwthyn y Cei neu Dock Cottage o'r un cyfnod, fel y mae'r adeilad un llawr sy'n union i'r dwyrain o Dafarn Telford, a oedd yn ôl pob tebyg yn un o adeiladau allanol Scotch Hall.

2.9 Ar rifyn cyntaf Map 1:2500 yr Arolwg Ordnans 1875 gwelir bod gweithdy unllawr o friciau i'r de o'r dociau sych wedi ei adeiladu a bod gorchudd ar y doc sych mwyaf gogleddol. Amlygir ochr orllewinol y Basn, y ddwy ochr i Bont y Ffordd Newydd, gyda rhwydwaith o reilffyrdd ar hyd y lanfa i ben gogleddol y Basn. Yn Froncysyllte, roedd Fron House, Argoed Lodge a'r Froncysyllte Institute wedi eu datblygu. Erbyn ail rifyn map yr AO ym 1899 mae sied drawsgludo dan do yng nghornel gogledd ddwyreiniol yr ardal lle mae'r rheilffyrdd a'r gamlas ym Masn Trefor ac yn Froncysyllte, Tŷ'r Gamlas (Canal House), bwthyn fforddoliwr a Rhes y Gamlas (Canal Terrace) oll wedi eu hadeiladu. Mae trydydd rhifyn map yr AO o 1912 yn dangos adeilad mawr ar ffurf llythyren C yn ymyl Pont y Ffordd Newydd yn Nhrefor.

2.10 Ychydig iawn o ddatblygu a ddigwyddodd yn ddiweddarach yn yr 20fed Ganrif ac roedd yn cynnwys dymchwel estyniadau ar Fwthyn y Cei a chodi'r siop Eingl-gymreig ac adeiladu pont droed y Basn ym Masn Trefor. Tua'r un pryd yn Froncysyllte, adeiladwyd rhes o dai unllawr ar hyd ymyl y Basn, sef Coedfryn. Yn lle Pont Godi'r Fron, o flynyddoedd cynnar y 19eg Ganrif, codwyd un arall a oedd yn debyg i'r un wreiddiol.



OS © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded 100023429. 2009

Ffigwr 3 - Basn Froncysyllte 1877



3 Crynodeb o Gymeriad Arbennig

3.1 Dyma'r hyn sy'n rhoi ei chymeriad arbennig i Ardal Gadwraeth Traphont Ddŵr Pontcysyllte:

Traphont Ddŵr Pontcysyllte a'r Dirwedd o'i Hamgylch



3.2 Y draphont ddŵr yw elfen fwyaf amlwg yr Ardal Gadwraeth, yn gorfforol ac o ran ei phensaernïaeth a'i hanes. Dyma enghraifft nodedig o dreftadaeth ddiwydiannol ar waith, sydd o ran ei maint, ei graddfa a'i hadeiladwaith mentrus wedi bod yn rhyfeddod ers degawd olaf y ddeunawfed ganrif.

Cyfraniad y Coed

3.3 Mae'r llethrau coediog ger y Draphont Ddŵr a gyda llinell y llwybr o Fasn Froncysyllte i'r Draphont Ddŵr yn ei hamgylchu yn bendant iawn. Mae'r coedydd hyn yn gefndir i'r Ardal Gadwraeth ac yn fur amddiffynnol rhwng yr Ardal Gadwraeth a thai a diwydiannau'r ardaloedd cyfagos.

Gwrthgyferbyniad Rhwng Mannau Agored a Chaeedig

3.4 Mae'r olygfa agored o'r Draphont Ddŵr a gwaelod dyffryn Afon Dyfrdwy yn newid llwyr wedi'r llwybrau sy'n dod dan gysgod y coed at nodwedd amlycaf oll yr Ardal Gadwraeth. O feysydd agored gwaelod y dyffryn mae modd gwerthfawrogi maint aruthrol y Draphont Ddŵr. Mor wahanol eto yw tirwedd ddigynllun ac agored dyffryn afon Dyfrdwy i ffurf linellol bendant iawn y Draphont Ddŵr a'r dyfrffyrdd a'r llwybrau o'i hamgylch.

Golygfeydd Pwysig

3.5 Mae golygfeydd sylweddol o'r Draphont Ddŵr i'w gweld o waelod y dyffryn yn ogystal ag ar ei hyd o Fasn Trefor. O Fasn Froncysyllte mae golygfeydd gwych i'w gweld i fyny Dyffryn Llangollen ac o'r Draphont Ddŵr ei hun, mae golygfeydd ysgubol o Ddyffryn Dyfrdwy i'w gwerthfawrogi.

Carreg Cefn

3.6 Tywodfaen melyn Cefn yw'r prif ddeunydd yn yr Ardal Gadwraeth ac mae'r Draphont Ddŵr ei hun wedi ei gwneud ohono yn ogystal â phontydd y gamlas, yr adeiladau a'r waliau ffiniol sy'n gysylltiedig â hi.

Adeileddau'r Gamlas

3.7 Mae'r adeileddau a'r adeiladau cysylltiedig yn cynnig canolbwyntiau ar hyd y gamlas ac yn yr Ardal Gadwraeth. Yn arbennig, mae pont fwylltid Dociau Sych Basn Trefor, Pont Scotch Hall a Phont Godi Froncysyllte yn cysylltu'r rhwydwaith o lwybrau a mannau agored ledled yr ardal.





OS © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded 100023429. 2009

Ffigwr 4 Ardaloed o Gymeriad yn yr Ardal Gadwraeth

4 Ardaloedd o Gymeriad

Traphont Ddŵr Pontcysyllte

4.1 Mae modd rhannu'r Ardal Gadwraeth yn 4 ardal bendant o ran eu cymeriad fel y mae ffigwr 4 yn dangos ac a ddisgrifir nawr o danodd:

4.2 Y Draphont Ddŵr, sy'n Adeilad Rhestredig Gradd 1, yw nodwedd amlycaf yr Ardal Gadwraeth. Dywed LTC Rolt am Bontcysyllte ei bod yn 'un o lwyddiannau mawr peirianneg yr holl oesoedd'. Ychydig iawn o ddatblygu sydd wedi difwyno tirwedd y dyffryn ac afon Dyfrdwy ac o'r fan hon gellir gwerthfawrogi gwir fawredd a llwyddiant y draphont ddŵr. Yma, ar un o ryfeddodau mawr Oes y Camlesi, mae cafn wedi ei wneud o blatiau haearn wedi eu cyn-gastio a'u bolltio yn cludo'r gamlas 38.4m, sef 126 o droedfeddi uwchben gwaelod y dyffryn. Mae breichiau yn cynnal y llwybr halio tros y cafn ac mae 18 o golofnau carreg sy'n meinhau tua'r pen yn cynnal y draphont ddŵr ei hun. O'r argloddiau mae golygfeydd syfrdanol o'r Draphont Ddŵr i'w gweld yn cynnwys yr asennau cynhaliol o haearn bwrw a'r muriau ategol o gerrig nadd crwm a cheinwych. Disgrifiad Syr Walter Scott ohoni oedd yr "afon yn yr awyr". Roedd yn destun cryn nifer o engrafiadau yn ystod y 19eg Ganrif ac yn rhyfeddod i deithwyr.

4.3 Mae'r olygfa sydd i'w gweld ar hyd y draphont ddŵr yn syfrdanol, ac mae sylweddoli pa mor fain yw'r adeiledd o'r uchder hwn yn fodd i ddeall medrau adeiladu a chrefftwaith yr oes honno. Mae edrych i lawr ar afon Dyfrdwy islaw yn fodd i werthfawrogi mawredd yr adeiledd hwn. Mae golygfeydd gwych hefyd o ddyffryn afon Dyfrdwy rhwng esgeiriau rhewlifol. I'r gorllewin mae pont ffordd hanesyddol tros afon Dyfrdwy, Pont Cysylltau - sy'n Adeilad Rhestredig Gradd 1 ac yn Heneb Gofrestredig o'r flwyddyn 1679, wedi ei hadeiladu o dywodfaen melyn nadd. Mae cipolwg ar ambell i dŷ Sioraidd ac o Oes Fictoria, ymysg y coed, yn ychwanegu at yr olygfa hon. Un o'r adeiladau hyn yw Wood Bank, fila Sioraidd restredig Gradd II o'r ddeunawfed ganrif, a oedd, yn ôl pob sôn, yn swyddfa arlunio i Telford pan oeddent yn adeiladu'r gamlas a'r draphont ddŵr.

4.4 Yn y pen gogleddol, mae datblygiad yn union o dan y draphont ddŵr ar yr ochr orllewinol, sef dau dŷ unigol. Maent yn hawdd eu gweld o'r llecyn manteisiol ar ben y draphont ddŵr.

4.5 Mae'r olygfa i'r dwyrain yn cynnwys y draphont o dywodfaen melyn yng Nghefnbychan, adeilad rhestredig Gradd II* a godwyd ym 1848 - 9 ar gyfer rheilffordd Amwythig a Chaer.

4.6 Mae coed yn rhan hanfodol bwysig o gymeriad yr ardal.

Ffigwr 5 Traphont Ddŵr Pontcysyllte



OS © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded 100023429. 2009

Glanfa Trefor

4.7 Dyma fan ddeniadol tu hwnt a'i phrif nodwedd yw'r meini nadd a llanw o dywodfaen melyn Cefn yn ei phontydd, waliau ffiniol ac adeiladau, sy'n creu cyferbyniad pendant iawn gyda diwyg digon cyffredin y tai briciau coch a rendr ar y ffyrdd sy'n dod ati. I'r gorllewin a'r gogledd mae'r waliau cerrig deniadol yn cynnig undod i'r ardal yn ogystal â diffinio'r fan.

4.8 Ychydig yn unig o adeiladau sydd yn yr ardal hon. Mae Tafarn Telford a'r bwthyn cyfagos yng nghornel gogledd orllewinol yr ardal yn gasgliad pendant mewn lleoliad allweddol. Yn hawdd eu gweld wrth ddod at y safle ar hyd y ffordd, mae'r adeiladau yn wahanol iawn eu golwg i'r hyn sydd yn union o'u cwmpas. Yn amlwg ar ochr y ffordd uwchben y waliau cerrig y mae'r toeau isel gyda bondo mawr sy'n taflu allan a thalcenni nodweddiadol o adeiladau rhan olaf y 18fed Ganrif. Mae'r adeiladau yn gymesur iawn a syml o ran manylder, wedi eu gorffen gyda phlastr wedi ei baentio'n wyn a manylion du.

4.9 Gyda Thafarn Telford â'r bwthyn un ochr iddi a'r ochr arall yr adeiladau allanol wedi eu gorffen yr un modd, mae'r casgliad yn gefndir deniadol wrth edrych arno o lanfa'r gamlas. Maent yn amlwg hefyd o'u gweld oddi ar lwybr halio'r draphont ddŵr. Mae hwn yn gaffaeliad gwerthfawr, oherwydd datblygiad diwydiannol yw'r golygfeydd a welir o ganol yr ardal hon i gyfeiriad y gogledd ddwyrain a'r dwyrain.

4.10 Tafarn Telford yw'r unig adeilad a adeiladwyd ym Masn Trefor cyn 1803. Cafodd ei newid yn ystod y 19eg a'r 20fed ganrif. Mae'r cyfraneddau cymesur a'r to slip sy'n taflu allan yn nodweddiadol o adeiladau sy'n perthyn i oes y camlesi.

4.11 I bob golwg y mae'r bwthyn unllawr i'r de ddwyrain o Dafarn Telford yn perthyn i'r cyfnod 1803-38. Roedd yn gysylltiedig â Scotch Hall (Tafarn Telford) a chafodd ei newid ym 1897 a'r dyddiad hwnnw fe'i gelwid yn Swyddfa'r Asiant, o Gwmni Camlas Ellesmere gellid tybio. Mae'n bosibl y bu'n gyfrifdy ar gyfer talu cyflogau'r gweithwyr a oedd yn adeiladu'r draphont ddŵr.

4.12 Ar ochr orllewinol y gamlas, yn bellach i'r de na'r Dafarn y mae'r Siop Eingl-gymreig sy'n eiddo i Ymddiriedolaeth y Tollbyrth. Efallai mai hen warws gyda'r gamlas oedd hon i ddechrau. Erbyn 1903, roedd wedi ei newid yn stabl, y mae'n debygol y byddai wedi bod ar gyfer Scotch Hall, sydd erbyn hyn yn Dafarn Telford. Mae'r adeilad wedi ei newid llawer tros y blynyddoedd ac



mae'n gymysgedd o ddefnyddiau adeiladu, sy'n amrywio o'r tywodfaen melyn gwreiddiol wedi'i naddu'n fras i gynnwys briciau coch a glas, gyda tho serth o ffelt llwyd a ffenestri adeiniog cyfoes wedi'u gwneud o bren. Mae dau lawr i'r adeilad ac mae gan y llawr uchaf un agoriad i'r gogledd orllewin, lle mae'r talcen yn rhan o'r wal sydd o amgylch y Basn, ac un arall i'r gogledd ddwyrain. Roedd yr agoriad blaenorol yn ddrws ar gyfer dod â phethau i mewn a byddai wedi agor allan ar ystafell wair neu fan ar gyfer cadw nwyddau.

4.13 Yn bellach eto i'r de y mae Pont 31, pont ffordd gyhoeddus a adeiladwyd oddeutu 1803 - 8. Mae Ffordd yr Orsaf yn mynd drosti. Mae hi wedi ei gwneud o dywodfaen, gyda chanllawiau o gerrig nadd ac mae'n debyg o ran ei ffurf a'i llun i Bont 28. Gallai'r wal gyfagos sydd o amgylch y Basn fod o leiaf o'r un cyfnod â'r dyddiad hwnnw.

4.14 Bron iawn gyferbyn, ar ochr ddwyreiniol y gamlas, y mae'r Dociau Sych, a adeiladwyd rhyw dro rhwng 1803 a 1838. Dichon eu bod yn rhan o gynllun gwreiddiol y lanfa. Efallai, yn wreiddiol, fod y ddau ddoc wedi eu gwneud un ai o gerrig neu o bren ond erbyn hyn i bob golwg maent wedi eu gwneud o flociau concrit yn bennaf gyda chlytiau o friciau, a grisiau o garreg i fynd iddynt o'u pennau crwn agosaf at y lan.

4.15 Cafodd y doc gogleddol ei orchuddio rhyw dro rhwng 1838 a 1880 ac mae adeiladwaith y to pren yn dal yno ar y cyfan, wedi ei gynnal ar golofnau cyfansawdd o haearn bwrw, pob un yn ddwy ran ar ffurf "I" wedi eu gwneud o haearn wedi'u bolltio ynghyd ac yn sownd ar blatiau sail wedi'u gosod mewn concrit. Mae arwyddion bach o bren wedi'u paentio gyda llaw yn harddu ei olwg. Mae pont droi ddeniadol o bren, sy'n troi ar golyn canolog, yn fodd i'r llwybr halio fynd tros fynedfeydd y dociau.

4.16 Mae gweithdy unllawr y bont, sydd yn ymyl ac i'r de, yn adeilad briciau o ganol y 19eg Ganrif, ac a newidiwyd yn ystod yr 20fed Ganrif. Mae'r rhan hynaf ohono wedi ei gwneud o friciau coch Rhiwabon gyda tho llechi, ac estyniad diweddarach ar y pen deheuol wedi ei wneud o friciau glas Swydd Stafford. Codwyd yr adeilad mewn cysylltiad â'r dociau sych. Mae libart blaen helaeth i'r safle, gyda ffens ddeniadol o reiliau unionsyth a haearn gyr, yn rhes ar gefn y safle hyd at y doc sych.

4.17 Yn agos at y Dociau Sych ac i'r gogledd y mae Bwthyn y Doc, sydd yn ôl pob tebyg o'r un cyfnod â hwy. Yn Asesiad Degwm 1838, disgrifiwyd y bwthyn yn 'Siop Gwrw' a 'Gefail'. Ym mlynyddoedd cynnar yr 20fed Ganrif roedd yn dŷ i Flaenwr y Doc. Yn wreiddiol, roedd y bwthyn deniadol hwn yn adeilad o gerrig gydag un llawr a hanner. Cafodd ei ehangu ar ei ochr dde ddwyreiniol cyn 1880 ac ym 1902 ychwanegwyd oddeutu 1.1m at uchder to'r bwthyn gwreiddiol. Gosodwyd pedair o ffenestri fframiau corniog yn y mur de orllewinol a

chodwyd estyniad deulawr ar yr ochr ogledd ddwyreiniol. Mae'r newid hwn yn amlwg hyd heddiw, lle mae briciau i'w gweld yn dod yn lle'r tywodfaen cynharach ar ran uchaf y bwthyn.

4.18 Ger Tafarn Telford i'r gogledd o'r safle, ar draws y gamlas, mae Pont y Ffordd Newydd. Codwyd hon, yn ôl pob tebyg, cyn 1803, oherwydd ei bod yn mynd â ffordd a oedd yn bodoli'n barod dros y gamlas. Mae iddi dri bwa o gerrig, gyda'r bwa gorllewinol yn 3m neu 9.9 o droedfeddi o uchder a 3.67m neu 12.1 o droedfeddi o led ar draws y gwaelod. Mae'r bwâu wedi eu leinio gyda briciau. Roedd y bwa gorllewinol yn cynnal rheilffordd a thramffordd ym 1875. Mae bwa'r gamlas yn 4.9m neu 16.1 o droedfeddi o led ar draws y gwaelod ac yn 2.26m neu 7.4 o droedfeddi o uchder. Mae'r llwybr halio yn mynd tros fwa llai ar yr ochr ddwyreiniol ac mae hwn yn 2.15m neu 7.1 o droedfeddi o led ac yn 2.05m neu 6.7 o droedfeddi o uchder. Mae hon yn rhwystr sylweddol rhag gweld yr olygfa o'r de i'r gogledd.

4.19 Nodwedd ganolog y rhan hon o'r Ardal Gadwraeth yw'r bont droed o ran olaf yr 20fed Ganrif sy'n croesi'r gamlas. Mae hon yn cysylltu ardal y Doc gyda'r siop Eingl-gymreig a Thafarn Telford. Hen dro fod ei chynllun a'i manylion braidd yn ddi-chwaeth, sy'n golygu bod y bont i'w gweld yn elfen ymwthiol.

4.20 Mae'r dirwedd yn gyffredinol, yn enwedig o amgylch y gamlas, yn hyfryd o agored gydag amrywiaeth o fannau agored gyda phafin caled neu laswellt twt. Nid yw llawer o'r waliau sy'n cysylltu ac yn diffinio'r mannau agored, a allai wella'r ardal, yn arbennig o ddeniadol.

4.21 Yr ochr arall i'r gamlas, mae'r maes parcio, o darmac coch yn bennaf, wedi ei dirweddu'n weddol dda.

Y Glanfeydd Gogleddol

4.22 Dyma ardal a allai fod o ddiddordeb mawr o ran archeoleg ddiwydiannol. I'r gogledd o Bont y Ffordd Newydd mae'r gamlas yn ymrannu'n gainc derfynol i'r gogledd orllewin a chainc gyfochrog i'r gogledd ddwyrain a ddefnyddiwyd gan weithfeydd diwydiannol Plas Kynaston.

4.23 Ar fap 1899 hefyd gwelir nifer o gilffyrdd rheilffordd gyda'r cei a'r lanfa, y tybir eu bod yn dramffyrdd cul. Nodwedd amlycaf cornel ogledd ddwyreiniol safle'r lanfa yw doc trawsgludo lle'r oedd modd llwytho nwyddau ar neu oddi ar wagenni'r tramffyrdd. Yn union i'r dwyrain o'r adeilad hwn gwelir un dramffordd yn mynd tros bont ar draws y gainc hon o'r gamlas. Mae'r bont yn dal yno, er bod darnau ohoni wedi eu trwsio yn ddiweddar yn ystod yr 20fed Ganrif.

4.24 Mae nodweddion eraill o ddiddordeb archeolegol sy'n dal i fodoli yn cynnwys y waliau cerrig sy'n cynnal y lanfa, y storfa a waliau concrit dwy gainc y gamlas. Mae glaswellt ar y rhan fwyaf o'r ardal a choed newydd eu plannu. Mae dŵr hyd heddiw yn nwy gainc y gamlas ac mae ymwelwyr yn gallu angori ar y gainc ogledd ddwyreiniol. Mae llwybr ar hyd ymyl ddwyreiniol yr ardal yn dilyn llinell y dramffordd a oedd yn mynd dros y bont ac mae'r llwybr troed hwn yn mynd yn ei flaen gydag ymyl orllewinol y ganolfan ddiwydiannol gyfoes sy'n nodwedd amlycaf Dyffryn Afon Dyfrdwy yn y fan hon.

Ffigwr 7 Glanfeydd Gogleddol



Basn Froncysyllte

4.26 Deuir i Fasn Froncysyllte wrth ddilyn llinell rhwng argloddiau coediog sy'n creu ymdeimlad caeedig pendant iawn. Mae'r basn ei hun yn cynnig gwrthgyferbyniad i'r gamlas lle mae'n ymledu i gynnig arosfa i gychod a golygfeydd sylweddol sy'n ymagor y tu hwnt i Dŷ'r Gamlas ac ar hyd Dyffryn Llangollen i'r gorllewin. Eto, mae'r coed a'r adeiladau gydag ochrau'r gamlas yn dal i gynnal ymdeimlad o fod yn gaeedig tua'r gogledd ddwyrain a'r de.

4.27 Nid yw Tŷ'r Gamlas wedi colli fawr ddim o'r swyn oedd ganddo o fod yn fwthyn fforddoliwr. Mae iddo ddau lawr a thri bae, y mae un ohonynt yn taflu allan, gyda tho llechi a phedair o ffenestri codi (dalennog) corniog a chwarelog. Mae ganddo estyniadau diweddarach ar y ddau dalcen. Gerllaw mae Sefydliad Froncysyllte neu'r Froncysyllte Institute, adeilad unllawr syml y mae'r rhan fwyaf ohono wedi ei rendro gyda chymysgedd o gerrig a briciau i'w gweld o danodd.

4.28 O'i weld wrth ddod ato fel hyn, mae anheddiad Froncysyllte yn codi'n gefndir i ffin ddeheuol yr Ardal Gadwraeth, sydd wedi ei diffinio'n bendant iawn gan y llinell derfyn bresennol rhwng cefn y tai Coedfryn, Rhes y Gamlas a Fron House a Ffordd y Giât, sydd o gerrig yn bennaf. Mae Fron House, y credir ei fod o flynyddoedd cynnar y 19eg Ganrif a Rhes y Gamlas a godwyd yn ddiweddarach, yn adeiladau o ddiddordeb gweledol.

4.29 Mae Fron House yn adeilad helaeth mewn tiroedd eithaf sylweddol. Mae ganddo do llechi ac wyneb blaen wedi'i rendro ac mae iddo ddau lawr gyda bae slip ac ymestyniad is gyda ffenestri dormer yn y bondo gydag estyll tywydd addurnol. Mae'r ffenestri yn ffenestri codi (ffenestri dalennog) di-gorn gyda 4 chwarel. Ar y cyfan, mae'r tŷ wedi ei guddio gan goed, ond i bob golwg nid yw wedi colli llawer o'i gymeriad a'i nodweddion gwreiddiol. Mae Rhes y Gamlas yn estyniad ar Fron House ac mae'n debyg o ran arddull, gyda ffenestri dormer yn y bondo ac estyll tywydd addurnol. Mae ganddo ddau lawr a phedwar bae ac mae wedi ei adeiladu o gerrig wedi'u paentio gyda tho llechi. Mae ffurf wreiddiol yr adeilad wedi dioddef oherwydd gosod ffenestri newydd yn ddiweddarach a newidiadau ar y tu blaen.

4.30 Heibio i Res y Gamlas, mae uchderau cribau'r toeau yn ymostwng i fyngalos Coedfryn, sef 3 byngalo wedi eu hadeiladu o friciau gyda thoeau serth. Mae Argoed Lodge, sy'n

borthdy deulawr wedi ei adeiladu o friciau, gyda llawer iawn o gymeriad iddo, yn nodi'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth yn y gorllewin. Ar y tu blaen, mae ganddo fae ar ogwydd a phorth agored gyda llechi a ffenestri codi, y rhai uchaf ar ffurf bigfain gydag addurniadau o dywodfaen. Yn adeilad o ddiddordeb gweledol, sydd wedi cadw llawer o'i nodweddion gwreiddiol, mae Argoed Lodge yn nodwedd briodol iawn i'ch croesawu ar drothwy'r Ardal Gadwraeth.

4.31 Mae'r bont godi, sy'n debyg iawn i'r un y rhoddwyd hi yn ei lle oni bai ei bod yn defnyddio pŵer hydrolig, eto yn nodwedd amlwg sy'n cyhoeddi eich bod ar drothwy'r Ardal Gadwraeth yn y dwyrain, lle mae'r gamlas yn ymsythu wedi'r drofa yr oedd rhaid iddi ei dilyn wrth ymadael â chyffiniau'r draphont ddŵr. Y tu hwnt i'r fan hon mae'r llwybr halio yn ymledu ac mae'n ymestyn ar hyd un ochr yn unig i'r gamlas gyda gerddi preifat ar y lan gyferbyn.



5 Crynodeb o Nodweddion Negyddol

5.1 Mae nifer o ffactorau wedi eu darganfod sy'n amharu ar olwg a chymeriad yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys:

Adeileddau Amhriodol

5.2 Mae nifer o adeileddau yn yr Ardal Gadwraeth neu'n agos at ei ffiniau sy'n amharu ar ei chymeriad a'i golwg. I'r de orllewin o'r Draphont Ddŵr mae hen bafiliwn wedi ei wneud o bren sydd i bob golwg wedi ei gau â bordiau ac sy'n amharu rhywfaint ar y golygfeydd gwych o'r draphont ddŵr. Yn union i'r dwyrain o ben deheuol y draphont ddŵr mae gwaith trin carthion bach.

5.3 Ymysg yr adeiladau eraill mae adeilad symudol ar estyniad uchaf Glanfa Trefor. Mae hwn yn amharu ar olwg y lle ac nid yw'n gydnaws â chymeriad yr ardal tra mae'r toiledau ger y maes parcio ym Masn Trefor yn ddiddychymyg eu cynllun ac yn gyfraniad tila iawn i olwg mynedfa'r lanfa. Mae'r bont droed gerllaw, o'r 20fed Ganrif, wedi ei gwneud o goncrit dur gyda rheiliau o ddur meddal gyda cholofnau trymion yn eu cynnal pob pen wedi eu gorchuddio â gwaith cerrig blêr wedi'u pwyntio'n wael. O ran ei golwg, nid yw'r bont cystal â'r pontydd ffordd sydd gerllaw.

5.4 Mae wal hir gysylltiol yr ardd, yr un ochr i'r gamlas â Thafarn Trefor, sy'n amlwg i ymwelwyr sy'n dod i mewn o'r prif faes parcio, wedi ei gorchuddio gyda rendr caled a llwydaidd. Mae'r llain o laswellt o flaen y wal yn sefyll allan, yn llawer gwell i'w gweld na'r olwg galed sydd ar y wal a'r pafin. Yn anffodus, mae pobl yn parcio arno, sydd eto'n amharu ar olwg y lle.

Golygfeydd y mae Datblygiadau yn Amharu Arnynt

5.5 Er bod coetir a choedydd yn cuddio llawer o'r datblygiadau tai a diwydiannol cyfagos yn ddigon effeithiol, mae rhai mannau lle mae hyn yn amharu ar olygfeydd. O'r draphont ddŵr, i gyfeiriad Cefnbychan, mae

tai cyfoes fel bocsys o friciau coch yn amharu ar yr olygfa a lleoliad traphont y rheilffordd. O Lanfa Trefor tua'r gogledd ddwyrain mae datblygiadau diwydiannol yn amharu ar y golygfeydd.

Newidiadau Amhriodol

5.6 Mae newidiadau neu waith trwsio ar adeiladau wedi eu gwneud sy'n amharu yn y pen draw ar gymeriad a golwg yr adeiladau a'r Ardal Gadwraeth. Mae enghreifftiau gwael o ffenestri modern, yn enwedig y rhai hynny gyda fframiau PVCu, sy'n methu â chyflawni'r un ansawdd o ran dyluniad a golwg â'r hyn oedd gan y nodweddion gwreiddiol. Mae'r newidiadau i'r siop Eingl-gymreig, y cwrtil blaen llwm a'r dryswch o arwyddion ar y waliau, yn amharu hefyd ar olwg ei lleoliad ger y gamlas, yr un modd â'r ffensys a'r giatiau pren i'w chwrtil blaen. Fodd bynnag, byddai modd i'r adeilad ddod yn nodwedd o ddiddordeb sylweddol o'i adnewyddu'n dringar. Mae gormod o arwyddion a'r adlen ôl-dynadwy ar y Siop Eingl-gymreig yn amharu hefyd ar olwg yr adeilad.

Parcio, Wynebau'r Meysydd Parcio ac Arwyddion

5.7 Mae parcio a thagfeydd traffig yn broblemau cynyddol yn yr Ardal Gadwraeth yn enwedig yn ystod gwyliau a phenwythnosau. Mae hyn yn anghyfleus i'r preswylwyr ac mae'n amharu ar olwg yr ardal yr un pryd. Byddai modd hefyd i barcio diawdurdod erydu gwneuthuriad arbennig y safle a'i awyrgylch tawel. Mae ehangu'r cyfleusterau parcio presennol neu ddarparu rhai newydd yn hanfodol er mwyn lleddfu'r sefyllfa hon.

5.8 Byddai modd gwella'r mannau sy'n union o amgylch yr Ardal Gadwraeth, yn enwedig ym Masn Trefor, trwy gael gwared â'r gwifrau a'r ceblau uwchben, newid yr arwyddion ffyrdd diolwg a blêr a thirweddu o flaen y buarthau a'r tai cyfagos. Byddai wynebau'r meysydd parcio yn Nhafarn Trefor ac ym Masn Froncysyllte yn elwa ar gael eu gwella.

Dociau Sych

5.9 Yn gyffredinol, mae angen ailwampio ardal y dociau, ac mae hi'n llawn posibiliadau o ran ei gwella.

Rhan 2
Cynllun Rheoli

6.1 Traphont Pontcysyllte

CYNIGION AR GYFER CADW A GWELLA	
Gwella'r lleoliad	1.Rhagor o sgrinio i'r gwaith trin carthion a'i symud/adleoli yn y pen draw. 2. Eu hannog i drwsio'r pafiliwn / gosod un arall.
Cynnal a Gwella Golygfeydd	Diogelu'r golygfeydd a'r lleoliad yn ehangach trwy ddatblygiad ystyriol a rheoli coed a choetiroedd yn ofalus.
Estyniad a Awgrymir i'r Ffin	Ymchwilio i weld a fyddai modd estyn ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth, i gynnwys nifer o eiddo a choetir ar hyd ac yn ymyl Ffordd y Giât cyn belled ag ac yn cynnwys Pont Cysyllte.

6.2 Glanfa Trefor

CYNIGION AR GYFER CADW A GWELLA	
Gwella lleoliad y prif adeiladau	Cydweithredu gyda Dyfrffyrdd Prydain i ail-wynebu'r meysydd parcio yn gydnaws â'r ardal ym Masnau Trefor a Froncysyllte.
Gwella'r lleoliad sy'n union o amgylch yr Ardal Gadwraeth	1. Trafod gydag Adran y Priffyrdd i geisio tynnu arwyddion dibwrpas a chas bethau eraill. Byddai tirweddu o flaen datblygiad o dai cyfagos yn gwella'r fynedfa i'r Ardal Gadwraeth.
Sgrinio canolfannau diwydiannol	Dylid meithrin sgrin o goed lled aeddfed ar ochr ogleddol a gogledd ddwyreiniol y safle, nid yn unig i guddio'r safleoedd diwydiannol ond hefyd y maes parcio a'r toiledau cyfagos.
Gwella'r tirweddu caled a meddal	Dylid ceisio rhwystro parcio ger y gamlas ar leiniau glaswelltog a chynnig darpariaeth mewn lleoliad mwy derbyniol nad yw'n amharu ar olwg lleoliad y gamlas.
Gwella'r ffiniau	Dylid ailadeiladu'r wal rhwng Tafarn Trefor a'r gamlas gyda thywodfeini, sef prif ddefnydd yr ardal.
Trwsio adeiladwaith a esgeuluswyd	Mae gan Ddyfrffyrdd Prydain Gynllun Rheoli Cadwraeth ar gyfer adeiladau sy'n eiddo iddynt. Mewn eiddo dan berchnogaeth breifat dylid annog gwaith trwsio a chynnal a chadw tringar trwy ddosbarthu canllawiau a chyngor cyffredinol trwy'r Broses Rheoli Datblygu.
Dymchwel adeileddau amhriodol/gosod rhai newydd	Byddai gosod rheiliau dur cywrain neu rai pren symlach yn lle'r rheiliau dur presennol yn parchu a gwella'r ardal o amgylch. Gellid hefyd codi pont newydd a mwy cydnaws â'r ardal.
Gwella'r Cyfleusterau Parcio	Trafod ar frys mawr a fyddai modd darparu rhagor o gyfleusterau parcio.
Cael gwared â manylion amhriodol	Annog gwelliannau trwy gyngor cyffredinol a'r broses Rheoli Datblygu, yn cynnwys adfer nodweddion pensaernïol a gollwyd.

6.3 Y Glanfeydd Gogleddol

CYNIGION AR GYFER CADW A GWELLA	
Symud/adleoli adeileddau amhriodol	Rhagor o sgrinio i'r adeilad symudol ac yn y pen draw ei symud/adleoli.

6.4 Basn Froncysyllte

CYNIGION AR GYFER CADW A GWELLA	
Gwella lleoliad y prif adeiladau	Cydweithredu gyda Dyfrffyrdd Prydain i ail-wynebu'r meysydd parcio yn gydnaws â'r ardal ym Masnau Trefor a Froncysyllte.
Cynnal a gwella'r golygfeydd	Diogelu'r golygfeydd a'r lleoliad yn ehangach trwy ddatblygiad ystyriol a rheoli coed a choetiroedd yn ofalus.
Gwella'r lleoliad sy'n union o amgylch Gadwraeth	Mae angen trwsio ac ailadeiladu'r wal dywodfaen ar hyd yr Ardal Ffordd y Giât sy'n ffin i'r ardal, er mwyn cryfhau a gwella eto golwg ffin yr Ardal Gadwraeth. Mae angen hefyd ystyried mynedfa gyda mwy o ddiffiniad iddi i'r lanfa.
Ailgyflwyno elfennau a defnyddiau adeiladu traddodiadol	Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4(2) yn ceisio amddiffyn nodweddion a defnyddiau sy'n bodoli a sicrhau eu hadnewyddu yn gydnaws yn y dyfodol.
Gwella'r Cyfleusterau Parcio	Trafod ar frys mawr a fyddai modd darparu rhagor o gyfleusterau parcio.
Cael gwared â manylion modern amhriodol	Annog gwelliannau trwy gyngor cyffredinol a'r broses Rheoli Datblygu, yn cynnwys adfer nodweddion pensaernïol a gollwyd.
Trwsio adeiladwaith a esgeuluswyd	Mae gan Ddyfrffyrdd Prydain Gynllun Rheoli Cadwraeth ar gyfer adeiladau sy'n eiddo iddynt. Mewn eiddo dan berchnogaeth breifat dylid annog gwaith trwsio a chynnal a chadw tringar trwy ddosbarthu canllawiau a chyngor cyffredinol trwy'r Broses Rheoli Datblygu

7 Canllawiau Dylunio

7.1 Mae cymeriad adeiladau unigol, sy'n cyfrannu at ddiddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth, yn deillio o nifer o ffactorau y mae'r canllawiau dylunio canlynol yn berthnasol iddynt. Yn hyn o beth byddai modd cynnig ymyrraeth bensaernïol o'r radd flaenaf, cyn belled bod hyn yn gydnaws â'r cymeriad presennol.

Y Safle

7.2 Bydd ffurf unrhyw ddatblygu neu ailddatblygu a allai ddigwydd ar y safle ac effaith hyn mewn perthynas â mannau'r golygfeydd a lleoliad yr Heneb Gofrestredig, yn effeithio ar faint a swmp y gwaith adeiladu arfaethedig. Mae'n rhaid i'r gwaith o adnewyddu adeilad presennol neu ddatblygu adeilad newydd ategu'r hyn sydd o amgylch o ran y canlynol:

Cyfrannedd

7.3 Roedd y dulliau hŷn o adeiladu yn dilyn systemau cyfrannedd traddodiadol. Yn yr Ardal Gadwraeth mae'r berthynas rhwng ffenestri, drysau, uchderau lloriau a'r berthynas rhwng solet a gwagle (faint o arwynebedd sydd i'r wal mewn perthynas â nifer a maint agoriadau ffenestri neu ddrysau), wrth ddylunio golwg, yn hanfodol bwysig. Mae'n rhaid efelychu cyfraneddau traddodiadol ar ddatblygiadau newydd.

Estyniadau

7.4 Dylai estyniadau adlewyrchu graddfa a chyfraneddau'r adeilad sy'n bodoli a pheidio â bod yn rhy fawr iddynt. Yn aml iawn mae modd cyflawni hyn trwy osod wyneb yr estyniad gam yn ôl o wyneb yr adeilad presennol a gosod uchder crib y to yn is er mwyn i'r adeilad gwreiddiol fod y mwyaf amlwg.

Toeau

7.5 Llinell y to, yn amlach na heb, yw nodwedd amlycaf adeilad a hanfodol yw cadw ffurf, goleddf, a manylion ymyl a bondo'r gwreiddiol. Mae uchderau a ffurfiau toeau yn bwysig; nid yw toeau gwastad yn rhan o'r traddodiad lleol ac maent felly yn annerbyniol. Mae cyrn simnai yn nodweddion pwysig o'r darlun mae toeau'r ardal yn ei gynnig ac mae'n rhaid eu cadw hyd yn oed os nad oes mo'u hangen mwyach. Os oes angen rhoi defnyddiau newydd ar do, mae'n rhaid iddynt fod yr un lliw, maint ac ansawdd â'r gwreiddiol. Mae ffenestri dormer wedi eu gosod yn y bondo yn gyffredin yn yr Ardal Gadwraeth.

Waliau Allanol

7.6 Mae'n rhaid i unrhyw newid neu waith trwsio ar waliau allanol barchu'r defnyddiau adeiladu presennol a gweddu iddynt o ran ansawdd, safon a lliw. Dylid gwneud pob

ymdrech i gadw neu ailddefnyddio briciau neu gerrig o'r wyneb, a rhaid peidio â'u rendro, eu gro chwipio na'u paentio. Mae'n rhaid ail-bwyntio gyda morter sy'n gweddu i'r gwreiddiol o ran ei liw, math ac ansawdd. Yn hanesyddol, byddai wedi ei wneud o galch a thywod. Mae morterau sment heddiw yn galed ac nid oes modd i wlybaniaeth anweddu trwy'r bylchau rhwng y cerrig. Yn lle hynny mae'n treiddio trwy'r cerrig eu hunain, sy'n fwy meddal na'r morter newydd. Mae hyn yn niweidio golwg ac adeiladwaith yr adeilad. Mae'n rhaid peidio â thynnu'r rendr gwreiddiol i ddadorchuddio waliau rwbel, cerrig, briciau neu fframiau pren, nad oedd wedi eu bwriadu i fod yn agored i'r tu allan. Yn draddodiadol roedd gorffeniadau rendro yn cael eu gwneud gyda chalch. Mae rendrau mwy diweddar a chaled, wedi eu gwneud gyda sment, yn rhwystro'r gwlybaniaeth rhag anweddu ac mae'n gallu cronni rhwng y wal a'r rendr sy'n creu mwy o wlybaniaeth y tu mewn. Pan yw'n briodol, dylid gosod rendr calch yn lle'r un sment caled. Mae'n rhaid trwsio nwyddau dŵr glaw os ydynt yn wreiddiol neu eu hadfer gyda defnyddiau gwreiddiol.

Ffenestri

7.7 Mae'r rhain yn nodweddion pwysig y mae eu cyfrannedd yn gorfod bod yn gywir, yn cydweddu'n dda i'w gilydd ac adeiladau cyfagos a dylent barchu agoriadau sy'n

bodoli. Mae'n rhaid i unrhyw waith trwsio neu osod o'r newydd fod fel y gwreiddiol pob tro, fodd bynnag, eu cadw fel y maent sy'n gorfod bod yn ystyriaeth gyntaf pob tro.

Mae hyn yn cynnwys nid yn unig elfennau strwythurol y ffenestr ond hefyd gwydr hanesyddol a heyrn gwreiddiol y ffenestr. O bwys arbennig yw'r modd y mae'n agor, y dyfnder y mae wedi ei gosod yn y cil a'r adrannau o farrau gwydro. Ffenestri dalennog (ffenestri codi) a ffenestri adeiniog a welir rhan amlaf yn yr Ardal Gadwraeth ac mae gan ffenestri bwyslais fertigol yn amlach na pheidio. Mae gosod ffenestri newydd wedi eu gwneud o uPVC yn lle'r rhai gwreiddiol o bren neu haearn, beth bynnag fo'r patrwm, yn annerbyniol. Mae'n rhaid trwsio a chadw'r ffenestri dormer gwreiddiol. Mae'n rhaid paentio pob ffenestr yn y modd traddodiadol yn hytrach na'u staenio yn null yr oes hon.

Drysau

7.8 Mae'n rhaid cadw fframiau drysau a heyrn gwreiddiol lle bynnag y bo modd. Mae'n rhaid i rai newydd fod fel y gwreiddiol o ran cyfrannedd, arddull a defnyddiau ac wedi'u paentio.

Nodweddion Addurnol

7.9 Os oes nodweddion fel mowldinau terracotta, ffigyrau, arysgrifau, rheiliau, nodweddion goruwchadeiliadau ac ati, mae'n rhaid eu cadw yn nodweddion o gymeriad yr adeilad a'r Ardal Gadwraeth yn gyffredinol.

Manylion Ffiniau

7.10 Waliau o dywodfaen gyda meini capan 'iâr a cheiliog' neu o dywodfaen plaen, yw'r dull cyffredin a thraddodiadol o amgáu anheddau yn yr ardal gadwraeth. Mae waliau o friciau coch gyda meini capan o dywodfaen yn fathau cyffredin o driniaethau ffiniol hefyd ar eiddo diweddarach.

Dylid gwneud gwaith trwsio gyda defnyddiau hollol debyg ac yn yr un dull neu wead a gosod meini copa newydd fel y gwreiddiol yn lle unrhyw rai sydd ar goll.

Cynhyrchu Ynni Micro

7.11 Er bod eisiau hyrwyddo systemau cynhyrchu ynni micro, ni fydd lle i'r rhain os yw'r offer wedi eu gosod ar gwrtil blaen adeiladau neu ar wynebau gweladwy lle byddent yn amharu ar olwg yr Ardal Gadwraeth neu lle byddent yn amharu ar adeiladwaith neu leoliad Adeilad Rhestredig.

8 Rheoliadau Ardal Gadwraeth

Rheoliadau Arbennig

8.1 Er mwyn diogelu'r amgylchedd arbennig mae rheoliadau mwy llym yn yr Ardal Gadwraeth. Nid oes bwriad i'r rhain fod yn rhwystr i newid, ond yn hytrach yn ddull pendant o reoli er mwyn diogelu cymeriad yr ardal yn gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwerau rheoli ychwanegol ar gyfer tai preswyl ar gyfer estyniadau, estyniadau ar doeau a newidiadau, cladin, garejys a gosod dysglau lloeren.
- Ar gyfer y rhan fwyaf o waith sy'n golygu dymchwel yn llwyr, mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth. Ni roddir caniatâd ar gyfer dymchwel fel arfer hyd nes bydd yn hysbys pa fath o ailddatblygu fydd yn digwydd.
- Ar gyfer gwaith ar goed, mae'n rhaid rhoi chwe wythnos o rybudd i'r Cyngor.

Gyda phob cynnig ar gyfer datblygu ac arddangos hysbysebion mewn Ardal Gadwraeth, mae angen mwy o ofal er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn gwella a chadw cymeriad arbennig yr ardal. Mae dylunio a dewis defnyddiau yn arbennig o bwysig yn hyn o beth.

Cyfarwyddyd Erthygl 4(2)

8.2 Newidiadau bach a thameidiog sy'n gallu peri'r niwed mwyaf i gymeriad a golwg ardal gadwraeth. Gellid tybio efallai mai dibwys o ran effaith yw rhoi defnyddiau amhriodol yn lle'r rhai traddodiadol ond effaith gynyddol y newidiadau bychain hyn sy'n erydu cymeriad arbennig ardal. Fel arfer, nid oes rheolaeth ar y newidiadau hyn oherwydd yr ystyrir hwy yn 'Ddatblygu a Ganiateir' o dan Gyfarwyddyd Cynllunio (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

O ganlyniad i Gyfarwyddyd Erthygl 4(2), mae rheoliadau ychwanegol yn berthnasol, ac yn hyn o beth mae angen Caniatâd Cynllunio ar gyfer y newidiadau canlynol:

- Ehangu tai preswyl yn cynnwys codi adeileddau neu osod wynebau caled o fewn eu cwrtil
- Newid defnyddiau ar waliau allanol tai preswyl yn cynnwys drysau allanol, ffenestri, fframiau ffenestri, nwyddau dŵr glaw a phethau allanol eraill a phaentio'r pethau hynny (heblaw eu hail-baentio gyda'r un lliw)
- Unrhyw newidiadau eraill yn ffenestri a drysau allanol tai preswyl
- Unrhyw newidiadau eraill ar doeau yn cynnwys simneiau tai preswyl (yn cynnwys darparu ffenestri yn y to)
- Gosod antenau lloeren ar dai preswyl neu o fewn eu cwrtil
- Newidiadau ar, neu ddymchwel, waliau ffiniol neu ddulliau eraill o amgáu, yn gymaint ag y byddai'r datblygiad yn wynebu ar fin priffordd, dyfrffordd neu fan agored.

Gwneud Cais am Waith sydd wedi ei Reoli o dan Gyfarwyddyd Erthygl 4(2)

8.3 Y cyngor gorau i chi pob tro yw trafod eich bwriadau gydag Adran Gynllunio'r Cyngor cyn cyflwyno cais. Wrth gynllunio newidiadau yn eich cartref dylid gwneud pob ymdrech i gadw'r nodweddion a'r defnyddiau gwreiddiol. Os oes modd o gwbl, dylid trwsio nodweddion fel ffenestri gwreiddiol a dim ond os nad oes modd bellach y dylid gosod rhai newydd yn eu lle, a hynny gyda rhai hollol debyg yn unig. Mae adfer nodweddion a gollwyd yn beth i'w hyrwyddo, ar sail tystiolaeth hanesyddol gywir. Nid yw'n

debygol y bydd rhoi defnyddiau diweddar yn lle'r gwreiddiol yn dderbyniol, yn enwedig gosod ffenestri PVCu yn lle rhai traddodiadol o bren.

Nid oes ffi ar gyfer ceisiadau sy'n ofynnol yn unig o ganlyniad i Gyfarwyddyd Erthygl 4(2).

Adeiladau Rhestredig

8.4 Mae adeilad rhestredig yn adeilad yr ystyrir bod iddo 'ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig' ac yn hyn o beth mae angen diogelu arbennig arno. Unwaith y mae wedi ei restru, mae'r adeilad wedi ei ddiogelu o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990. Mae'r Rhestru yn diogelu'r adeilad, y tu mewn a'r tu allan, beth bynnag fo'r rheswm dros restru yn ogystal ag unrhyw wrthrych neu adeiledd sydd wedi ei osod ar yr adeilad neu unrhyw wrthrych neu adeiledd o fewn 'cwrtil' yr adeilad, sy'n bodoli ers cyn y 1af Gorffennaf 1948. Diben hyn yw sicrhau y diogelir cymeriad arbennig yr adeilad a'i leoliad.

Lle bwriedir gwaith ar Adeilad Rhestredig, gwell pob tro yw gofyn i Awdurdod Cynllunio'r Adeilad a oes angen Caniatâd Adeilad Rhestredig. Ar gyfer unrhyw waith a fwriedir, mae angen ystyried yn arbennig a yw cadw'r adeilad, ei leoliad a nodweddion o ddiddordeb arbennig yn ddymunol.

Wrth ystyried unrhyw waith ar Adeilad Rhestredig, mae'n rhaid i gadw holl nodweddion ac adeiladwaith gwreiddiol yr adeilad fod yn brif amcan lle bynnag y bo modd. Mae angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig neu ar gyfer newid a fyddai'n newid cymeriad yr adeilad, ei gywirdeb neu ddiddordeb arbennig. Gallai hyn gynnwys newid ffenestri a drysau, newid defnyddiau'r to, paentio briciau, symud neu gael gwared â waliau mewnol neu blastr, lleoedd tân, estyll y lloriau neu risiau. Efallai na fydd angen caniatâd ar gyfer gwaith trwsio gyda defnyddiau hollol debyg i'r gwreiddiol, ond mae'n well pob tro holi cyn gwneud unrhyw waith trwsio.

Henebion Cofrestredig

8.5 Yn yr Ardal Gadwraeth, mae Traphont Ddŵr Pontcysyllte a'r Gamlas yn Heneb Gofrestredig. Mae'r ardal Gofrestredig yn cynnwys y Draphont Ddŵr, ei llwybr halio a'r glannau, y cloddfeydd a'r argloddiau agos. Mae Henebion Cofrestredig yn safleoedd a henebion o bwys cenedlaethol, y mae'r gyfraith yn eu diogelu. Gall rhai Adeiladau Rhestredig hefyd fod yn Henebion Cofrestredig. Os ydych yn bwriadu gwneud unrhyw waith, newidiadau neu gloddio, mae'n rhaid cael Caniatâd Heneb Gofrestredig. Dylid cyflwyno ceisiadau am Ganiatâd Heneb Gofrestredig i Lywodraeth Cynulliad Cymru.



9 Ffynonellau Cyllid

Cadw: Henebion Hanesyddol Cymru

Cadw yw'r brif asiantaeth sy'n cynnig cymorth grant ar gyfer adeiladau hanesyddol yng Nghymru. Dyma fanylion y prif gynlluniau grant:

● Grant Adeiladau Hanesyddol

Ar gyfer trwsio ac adfer adeiladwaith hanesyddol adeiladau o ddiddordeb hanesyddol 'eithriadol'. Telir grantiau fel arfer fesul taliadau neu wedi cwblhau'r gwaith. Mae canran cyfanswm y costau atgyweirio sy'n daladwy trwy grant yn dibynnu ar y math o adeilad, er enghraifft:

Crefyddol	50%
Ymddiriedolaethau ac Elusennau	40%
Domestig/Preifat	30%
Masnachol/Diwydiannol	30%
Cyhoeddus	30%

Efallai y bydd amodau'r grant yn gofyn bod arbenigwr yn gwneud a goruchwylio'r gwaith a chaniatáu rhywfaint o fynd a dod gan y cyhoedd i'r eiddo pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau. Mae'n rhaid hefyd i'r perchennog sicrhau y cedwir yr eiddo mewn cyflwr da a threfnu digon o yswiriant ar gyfer yr eiddo.

● Grant Ardaloedd Cadwraeth

Ar gyfer gwaith ar adeiladwaith allanol neu olwg adeiladau hanesyddol, sy'n gwella Ardal Gadwraeth yn sylweddol. Eto, telir grantiau fesul taliadau neu wedi cwblhau'r gwaith, ar sail y cyfraddau canlynol:

Crefyddol	40%
Ymddiriedolaethau ac Elusennau	30%
Domestig/Preifat	25%
Masnachol/Diwydiannol	25%
Cyhoeddus	25%

Fel gyda'r Grant Adeiladau Hanesyddol, efallai y bydd yr amodau yn gofyn bod arbenigwr yn gwneud a goruchwylio'r gwaith. Mae'n rhaid hefyd i'r perchennog sicrhau y cedwir yr eiddo mewn cyflwr da a threfnu digon o yswiriant ar gyfer yr eiddo.

Atodiad 1
Adeiladu Rhestredig

Adeilad	Gradd
Tafarn Telford, Ffordd yr Orsaf	II
Y Tŷ drws nesaf i Dafarn Telford, Ffordd yr Orsaf	II
Y Bont wrth Dafarn Telford	II
Pont Rhif.31, B5434	II
Dau Ddoc ar ochr Dd Basn Trefor, heblaw am y Gweithdy Modern	II
Rhannau Uchaf a Phont Droi	
Traphont Ddŵr Pontcysyllte	I
Henebion Cofrestredig	
Traphont Ddŵr Pontcysyllte a'r Gamlas	
Adeiladau Rhestredig Cofrestredig ar Ffin yr Ardal Gadwraeth	
Pont Cysyllte, (Hefyd yn Heneb Gofrestredig)	I
Wood Bank, oddi ar y B5434	II
Y Draphont (Cefnbychan)	II
Traphont y Rheilffordd tros Afon Ceiriog (Y Waun)	II*
Traphont Ddŵr Y Waun	II*
Twnnel Y Waun yn cynnwys Portholion y Gogledd a'r Dde a Basn Y Waun	II*

Atodiad 2
Canllawiau Polisi Cadwraeth

Prif Ddeddfwriaeth	Canllawiau Polisi Cenedlaethol	Polisi Lleol
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990	Polisi Cynllunio Cymru	Cynllun Datblygu Unedol Wrecsam
Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96: Nodyn Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth Ardaloedd Cadwraeth	Cyfarwyddyd Cynllunio Lleol 4:
Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979	Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 1/98: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru	
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995	Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio	
	Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg	

Atodiad 3
Rhestr Termau

Cynaliadau neu Ategwaith	Rhan solet o bier neu lanfa y mae bwa yn ymestyn ohoni neu bennau eithaf pont
Carreg Nadd	Y gwaith cerrig gorau, yn cynnwys blociau o garreg wedi ei naddu'n fanwl gywir gyda mannau cysylltu da iawn pob pen ac ar gyfer gwelyo
Cambr neu Grymedd	Llinell sy'n codi ychydig neu'n grom yn lle llinell lorweddol neu wastad
Adain neu Ffenestr Adeiniog	Ffenestr gyda'r adenydd sy'n ymagor yn troi ar golyn
Haearn Bwrw neu Haearn Cast	Haearn caled a brau, sy'n cael ei dywallt yn boeth a thawdd i mewn i fowld a chaledu wrth oeri
Sglefren y Gath (Catslide)	To hir a serth, lle mae prif oleddf y to ar adeilad deulawr yn dal i ymestyn i lawr tros y llawr isaf
Cornis neu Ordo	Unrhyw fargodiad llorweddol gydag ochr isaf wedi ei mowldio neu ei haddurno rhyw fodd arall sy'n coroni neu orffen y rhan y mae'n sownd arni; yn aml yn uchel ar du allan yr adeilad
Torddwr	Tafluniad siâp 'V' ar gynllun sy'n dynodi glanfa pont
Dormer	Ffenestr wedi ei gosod mewn to ar oleddf, yn aml gyda'i tho ei hun ar oleddf
Bondo Deintellog	Darnau bach ciwbig yn ymwthio o ben y wal o dan linell y to
Clawdd/Arglawdd/ Gwrthglawdd	Cloddwaith megis mewn caer
Cantel	Aden neu asgell o amgylch peipen neu rywbeth arall wedi'i wneud o fetel sy'n fodd ei osod
Trawst	Prif ddistyn, sef darn hir o bren sy'n cynnal, er enghraifft, distiau llawr neu brif drawst adeileddol
To Slip	To gyda goleddf ar ei holl ochrau yn hytrach na thalcennau
Maen Clo	Y garreg ganolog mewn bwa
Ffenestr Bigfain	Ffenestr gul gyda bwa pigfain arni
Trosolau	Agoriad gyda gwydr ynddo uwchben drws
Parapet	Wal neu ragfur sy'n nodwedd ar gyfer cuddio to (Canllaw pont)
Piler	Darn o adeiladwaith ar ei ben ei hun
Conglfeini	Cerrig nadd sy'n cydglymu corneli adeiladau
Rendr	Plastr, stwco neu orffeniad arall ar wyneb adeilad
Ffenestr godi neu Ffenestr ddalennog	Ffenestr gyda rhan sy'n ymagor (dalen) i fyny ac i lawr mewn rhigolau, un ai gydag un ffrâm wedi ei osod (un ddalen) neu gyda'r ddau yn symud (dwy ddalen).
Carreg Lanw	Carreg fach mewn rwbel llanw wedi'i sgwario
Cwrs Llinyn	Cwrs llorweddol o gerrig neu friciau neu fowldin sy'n sefyll allan o wyneb y wal
Stwco	Haen allanol o blastr calch main, gyda llinellau weithiau i fod yn debyg i gerrig nadd
UNESCO	Mae'n sefyll am y geiriau Saesneg am Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig, sef United Nations Education, Scientific and Cultural Organisation
Voissoirs	Cerrig ar ffurf lletem, yn rhan o fwa
Platiau Wal	Prennau neu drawstiau llorweddol a osodir ar waliau neu byst i gynnal darnau eraill o waith coed
Glanfa (Cei)	Lle gwastad ar lan afon ar gyfer llwytho a dadlwytho cychod
Haearn Gyr (Haearn Gwaith)	Haearn hydrin, wedi ei weithio neu ei rolio, a'i forthwylio i'w ffurf tra mae'n dal yn boeth
Safle Treftadaeth y Byd	Safle treftadaeth o arwyddocâd bydol, wedi ei ddynodi gan UNESCO.

Deunydd Cyfeirio

The Buildings of Wales: Clwyd (Denbighshire and Flintshire) Edward Hubbard
Guidance on Conservation Area Appraisials, English Heritage, 2005
Guidance on the Management of Conservation Areas, English Heritage, 2005
Asesiad Ardal Gadwraeth Basn Trefor, CBSW, 2001
The Life of Thomas Telford, Thomas Telford, 1838
Thomas Telford, LTC Rolt, 1958